



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

## Gwybodaeth i Gleifion

### Cyngor am Fwyta ac Yfed cyn cael Llawdriniaeth

#### Bwyta ac yfed

Yn y clinig cyn cael eich derbyn byddwch yn cael 6 diod maethol atodol (fortisip/fortijuce/ensure plus) i fynd adref gyda chi.



**Yfych 3 o'r diodydd hyn bob dydd (yn ogystal â bwyd) am y 2 diwrnod cyn eich llawdriniaeth.**

#### Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd i'w hyfed:

- Gellir gwanhau Fortisip/Ensure gyda llaeth.
- Gellir ychwanegu lemonêd/dŵr at fortijuce. Gellir oeri'r ddau.

Byddwch yn parhau i yfed y diodydd hyn 3 gwaith y dydd tra eich bod yn yr ysbyty.

#### Diod carbohydrad




Y noson cyn eich llawdriniaeth, ac ar y bore ei hun byddwch hefyd yn cael diod carbohydrad o'r enw Nutricia PreOp. Bydd rhaid i chi yfed 4 carton y noson cyn y llawdriniaeth.

#### Diet ffeibr isel

Am 5 diwrnod cyn eich llawdriniaeth dylech ddilyn deiet ffeibr isel er mwyn lleihau'r gwastraff yn eich coluddyn. Dewiswch fwyd o'r golofn "a ganiateir" yn unig. Byddwch yn cael bwyta tan hanner nos y noson cyn y llawdriniaeth (oni bai y nodir yn wahanol). Ar ôl eich llawdriniaeth byddwch yn cael yfed, a gallwch ddechrau bwyta'r diwrnod nesaf. Does dim rhaid cadw at y deiet ffeibr isel ar ôl y llawdriniaeth.

**Deiet Ffeibr Isel: dilynwch am 5 diwrnod cyn y llawdriniaeth.**

	<b>BWYDYDD A GANIATEIR</b>	<b>BWYDYDD I'W HOSGOI</b>
<p><b>BARA, GRAWNFWYDD A THATWS</b></p> 	<p>Bara gwyn</p> <p>Cornflakes, Rice Krispies</p> <p>Reis gwyn a phasta</p> <p>Tatws heb grwyn e.e. wedi berwi, wedi stwnshio, sglodion</p>	<p>Bara gwenith cyflawn</p> <p>Uwd</p> <p>Mathau gwahanol o wenith cyflawn e.e. <i>Weetabix, Branflakes</i></p> <p>Crwyn Tatws</p> <p>Bisgedi gwenith cyflawn a chraceri, flapjacks a chacennau ceirch</p>
<p><b>FFRWYTHAU</b></p> 	<p>Ffrwythau meddal/aeddfed wedi'u plicio heb hadau neu gerrig e.e. <i>ffrwythau tun eirin gwlanog, eirin melon, bricyll, bananas</i></p>	<p>Ffrwythau wedi sychu</p> <p>Ffrwythau sitrws</p> <p>Aeron e.e. <i>mefus mafon mwyar duon unrhyw gyrains</i></p> <p>Eirin sych</p>
<p><b>LLYSIAU</b></p> 	<p>Llyisiau wedi'u plicio a'u coginio'n dda e.e. moron, panas erfin, brocoli, a blodfresych</p>	<p>Llyisiau, salad gwydn, llinynnog e.e. <i>llyisiau amrwd, bresych, pys, india corn, ysgewyll, winwns</i></p>
<p><b>CIG DOFEDNOD, PYSGOD AC AMGEN</b></p>	<p>Cig coch tyner a dofednod</p> <p>Pysgod</p> <p>Wyau</p>	<p>Ffa, ffacbys a phys melyn e.e. <i>ffa pob ffa ffrengig gwygbys</i></p>
<p><b>CYNNYRCH LLAETH</b></p>	<p>Pob cynnyrch llaeth ar wahân i iogwrt ag aeron</p>	<p>Iogwrt ag aeron</p>
<p><b>BWYDYDD LLAWN BRASDER A SIWGR</b></p>	<p>Jam heb hadau, marmalêd heb groen oren</p> <p>Cacennau a bisgedi plaen</p>	<p>Jam â hadau, marmalêd â chroen oren</p> <p>Cacennau a bisgedi gwenith cyflawn</p> <p>Losin, cacennau neu fisgedi gyda chnau/ffrwythau sych</p>
<p><b>DIODYDD</b></p>	<p>Popeth</p>	
<p><b>AMRYWIOL</b></p>	<p>Cawl cig/pysgod gyda llyisiau "a ganiateir"</p>	<p>Cawl ffacbys/llyisiau</p> <p>Picls/Siytni</p> <p>Rhuddygl poeth</p> <p>Relish</p> <p>Popgorn, cnau coco</p>

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English".**